OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 537

# Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2005

## RHAN 2

COFRESTRU CWOTA

**Cofrestrau a hysbysiadau y mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol eu cadw a'u paratoi**

**4.**—(1) mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol —

(a) cadw cofrestr o werthiannau uniongyrchol; a

(b) anfon at bob gwerthwr uniongyrchol gopi o'r cofnod yn y gofrestr o werthiannau uniongyrchol yn ymwneud ag ef neu â hi.

(2) mae'n rhaid i'r gofrestr o werthiannau uniongyrchol gynnwys cofnod o ran pob gwerthwr uniongyrchol yn nodi yn arbennig —

(a) ei (h)enw;

(b) ei gyfeiriad/chyfeiriad masnachu;

(c) cyfeirnod sy'n fodd i'w (h)adnabod;

(ch) y cwota gwerthiannau uniongyrchol sydd ar gael iddo neu iddi ar gyfer y flwyddyn gwota; a

(d) manylion ei (g)werthiannau uniongyrchol.

(3) mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol—

(a) cadw cofrestr gyfanwerthol;

(b) anfon at bob cynhyrchwr cyfanwerthol gopi o'r cofnod yn y gofrestr gyfanwerthol yn ymwneud ag ef neu â hi; ac

(c) anfon at bob prynwr a enwir yn y gofrestr y cyfeirir ati ym mharagraff (4)(d) gopi o'r rhan honno o'r cofnod yn ymwneud â'i gwota/chwota prynwr.

(4) mae'n rhaid i'r gofrestr gyfanwerthol gynnwys cofnod o ran pob cynhyrchwr cyfanwerthol yn nodi yn arbennig —

(a) ei (h)enw;

(b) ei gyfeiriad/chyfeiriad masnachu;

(c) cyfeirnod sy'n fodd i'w (h)adnabod;

(ch) y cwota cyfanwerthol sydd ar gael iddo neu iddi ar gyfer y flwyddyn gwota; ac

(d) rhestr yn nodi enw a chyfeiriad pob prynwr y caiff ei gwota/chwota ei gyfrifo i ystyried cyfanswm cwota cyfanwerthol y cynhyrchwr cyfanwerthol hwnnw neu ran ohono, a'r cwota cyfanwerthol sydd wedi'i gofrestru gyda phob prynwr, gan ddangos sylfaen cynnwys braster gynrychioliadol y cwota hwnnw wedi'i chyfrifo yn unol ag Erthygl 7 Rheoliad y Comisiwn.

(5) mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol —

(a) cadw cofrestr o brynwyr; a

(b) anfon at bob prynwr gopi o gofnod y prynwr sy'n ymwneud ag ef neu â hi.

(6) mae'n rhaid i'r gofrestr o brynwyr gynnwys cofnod o ran pob prynwr yn nodi yn arbennig —

(a) ei (h)enw; a

(b) ei gwota/chwota fel prynwr.

(7) At ddibenion paragraffau (1) i (4), lle mae daliad deiliad cwota yn cynnwys mwy nag un fenter laeth, caiff deiliad y cwota hwnnw, ar ôl cyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol hysbysiad cydsyniad neu unig fuddiant ynghylch y daliad hwnnw, gytuno â'r Cynulliad Cenedlaethol i rannu'r cwota sydd ar gael i ddeiliad y cwota hwnnw yn ymwneud â'r daliad hwnnw rhwng cofnodion ar wahân yn y gofrestr o werthiannau uniongyrchol neu gofnodion ar wahân yn y gofrestr gyfanwerthol, yn ôl y digwydd.

(a) (8) (a) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol wneud y cyfryw ymholiadau ag y cred yn rhesymol eu bod yn ofynnol er mwyn sicrhau bod y cofrestrau y mae'n ofynnol iddo eu cadw o dan y rheoliad hwn yn gywir;

(b) mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ddiwygio'r cofrestrau —

(i) i gofnodi unrhyw ddyraniad neu addasiad a wneir o dan neu yn rhinwedd y Rheoliadau hyn, neu

(ii) gwneud unrhyw gywiriad neu ddiwygiad y cred yn rhesymol ei fod yn ofynnol;

(c) mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol hysbysu unrhyw berson yr effeithir arno neu arni gan unrhyw gywiriad neu ddiwygiad a wneir ganddo.

(9) Er nad yw person yn gynhyrchwr mwyach, mae'n rhaid iddo neu iddi—

(a) parhau i fod wedi'i gofrestru/chofrestru yn unol â'r rheoliad hwn;

(b) at ddibenion y rheoliad hwn a rheoliadau, 6, 7(a) a 33(1), barhau i gael ei (h)ystyried yn gynhyrchwr,

tan ddechrau'r flwyddyn gwota yn dilyn y flwyddyn y trosglwyddwyd y cwota a oedd ar gael iddo neu iddi neu nes bod y cwota wedi'i dynnu yn ôl o dan Erthygl 15 Rheoliad y Cyngor.

(10) mae'r rhwymedigaeth o dan baragraffau (1)(b), (3)(b) ac (c) a (5)(b) yn rhwymedigaeth i anfon copi o —

(a) cofnod; neu

(b) rhan o gofnod,

yn ôl y digwydd, fel y daw i rym ar 1 Ebrill ym mhob blwyddyn.

### Cymeradwyo prynwyr

**5.**—(1) At ddibenion Erthygl 23 Rheoliad y Comisiwn (sy'n ymwneud â chymeradwyo prynwyr), mae'n rhaid i brynwr wneud cais i'r Cynulliad Cenedlaethol am gymeradwyaeth yn y cyfryw ffurf ag y gall y Cynulliad Cenedlaethol yn rhesymol ei mynnu.

(2) mae'n rhaid i gais o dan baragraff (1) nodi cyfeiriad masnachu'r prynwr, neu, os bydd mwy nag un o'r cyfryw gyfeiriadau, bob cyfryw gyfeiriad a'i brif neu ei phrif gyfeiriad masnachu.

(3) At ddibenion Erthygl 23(2) Rheoliad y Comisiwn (sy'n caniatáu i Aelod-wladwriaethau bennu rheolau llymach ar gymeradwyo prynwyr), dim ond os bydd prynwr wedi cydymffurfio â gofynion paragraff (4) y caiff y Cynulliad Cenedlaethol ei gymeradwyo/chymeradwyo.

(4) Y gofynion y cyfeirir atynt ym mharagraff (3) yw bod y prynwr —

(a) wedi ymrwymo i'r Cynulliad Cenedlaethol y bydd yn cydymffurfio â darpariaethau'r Rheoliadau hyn a deddfwriaeth y Gymuned;

(b) nad yw wedi torri mewn ffordd hanfodol ddarpariaethau unrhyw gynllun ar gyfer cymorth yn y sector amaethyddol yn deillio o ddeddfwriaeth; ac

(c) naill ai —

(i) drwy gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol unrhyw gyfryw wybodaeth ag y gall fod arno ei hangen yn rhesymol, ei fod wedi dangos i foddhad rhesymol y Cynulliad Cenedlaethol fod ganddo neu ganddi sail ariannol gadarn i weithredu arni, neu

(ii) os cred y Cynulliad Cenedlaethol na fu'r prynwr yn masnachu yn ddigon hir er mwyn dangos hynny, ei fod wedi darparu'r cyfryw sicrwydd ag y gall fod ar y Cynulliad Cenedlaethol ei hangen yn rhesymol.

(5) mae'n rhaid i bob prynwr hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o —

(a) unrhyw newid yn ei gyfeiriad/chyfeiriad masnachu, neu, lle mae mwy nag un o'r cyfryw gyfeiriadau, unrhyw gyfeiriad masnachu ychwanegol ac unrhyw newid yn ei brif/phrif gyfeiriad masnachu; a

(b) unrhyw ffactor neu newid mewn amgylchiadau y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol yn rhesymol ystyried ei fod yn effeithio'n sylweddol ar unrhyw fater a oedd yn berthnasol at ddibenion ystyried ei gais/chais am gymeradwyaeth ganddo, neu sy'n effeithio ar ei (g)allu i gydymffurfio â'r ymrwymiad y cyfeirir ato ym mharagraff (4)(a).

(6) mae'n rhaid i bob prynwr —

(a) cadarnhau i bob cynhyrchwr sy'n ei gyflenwi/chyflenwi ei fod/bod wedi'i gymeradwyo/chymeradwyo yn unol â'r rheoliad hwn a rhoi manylion y gymeradwyaeth os gofynnir iddo/iddi wneud hynny; a

(b) hysbysu pob cynhyrchwr sy'n ei gyflenwi/chyflenwi os tynnir y gymeradwyaeth yn ôl.

**Rhwymedigaethau cynhyrchwyr a phrynwyr o ran cofrestru a danfoniadau**

**6.**—(1) mae'n rhaid i bob —

(a) gwerthwr uniongyrchol; a

(b) cynhyrchwr cyfanwerthol,

gofrestru ei gwota/chwota gyda'r Cynulliad Cenedlaethol.

(2) mae'n rhaid i bob prynwr gadw, o ran yr holl gynhyrchwyr cyfanwerthol y mae eu cofnodion cofrestr yn cynnwys enw'r prynwr hwnnw ar y rhestr y cyfeirir ati yn rheoliad 4(4)(d) —

(a) cofrestr yn cyfateb i'r un a gedwir gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan reoliad 4(3) mewn perthynas â'r rhan honno o'i gwota/chwota fel prynwr sy'n briodoladwy i bob un o'r cynhyrchwyr hynny;

(b) cofrestr yn cynnwys manylion danfoniadau gan bob un o'r cynhyrchwyr hynny i'r prynwr hwnnw; ac

(c) y wybodaeth sy'n ofynnol o dan baragraffau 2 i 4 Erthygl 24 Rheoliad y Comisiwn (sy'n ymwneud â'r cofnodion sydd eu hangen mewn cysylltiad ag asesu ardoll)

(3) mae'n rhaid i bob person sy'n dal cwota cyfanwerthol cofrestredig, gan gynnwys unrhyw gynhyrchwr sydd wedi rhoi'r gorau i wneud danfoniadau dros dro neu sy'n bwriadu gwneud hynny, gofrestru ei gwota/chwota gyda phrynwr.

(4) Dim ond i brynwr y gall cynhyrchwr cyfanwerthol gyflenwi llaeth.

(5) mae'n rhaid i bob prynwr gynnal system a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer —

(a) samplu llaeth pob cynhyrchwr cyfanwerthol y mae ei gofnodion/chofnodion cofrestr yn cynnwys enw'r prynwr ar y rhestr y cyfeirir ati yn rheoliad 4(4)(d); a

(b) canfod faint o fraster y mae'r llaeth yn ei gynnwys.

(6) mae'n rhaid i bob prynwr ddiwygio'r gofrestr y cyfeirir ati ym mharagraff (2)(a) bob tro y'i hysbysir gan y Cynulliad Cenedlaethol fod y gofrestr gyfatebol a gedwir gan y Cynulliad Cenedlaethol wedi'i diwygio o ran cynhyrchwyr cyfanwerthol sydd wedi'u cofrestru yng nghofrestr y prynwr hwnnw.

### Archwilio cofnodion yng nghofrestrau'r Cynulliad Cenedlaethol

**7.** Os gwneir cais —

(a) mewn perthynas â chofnod cofrestr y cyfeirir ato yn rheoliad 4(2) neu (4) gan unrhyw berson—

(i) sy'n ddeiliad y cwota a nodir yn y cofnod hwnnw, neu

(ii) sy'n rhoi i'r Cynulliad Cenedlaethol ddatganiad yn ysgrifenedig fod ganddo neu ganddi fuddiant yn naliad deiliad y cwota a nodir yn y cofnod hwnnw, neu

(iii) sy'n gweithredu fel asiant person y cyfeirir ato neu ati yn is-baragraff (i) neu (ii); neu

(b) gan brynwr mewn perthynas â chofnod yn y gofrestr y cyfeirir ati yn rheoliad 4(6) yn ymwneud ag ef neu â hi,

caiff y Cynulliad Cenedlaethol, pan delir tâl rhesymol, ddarparu i'r person sy'n gwneud y cais gopi o'r cofnod cofrestr.

### Cofrestrau fel tystiolaeth

**8.** Mewn unrhyw weithrediadau, mae unrhyw gofnod mewn cofrestr y mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol ei chadw yn dystiolaeth o'r materion a nodir ynddo.